


Cadeirlan  
Deiniol Sant  
*ym Mangor*

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*







Yr Eglwys yng Nghymru  
The Church in Wales  
Esgobaeth Bangor  
The Diocese of Bangor

Cadeirio'r Parchedigaŵ  
Andrew Thomas Griffith John yn


# *Archesgob Cymru*

The Enthronement of the Most Reverend  
Andrew Thomas Griffith John as

# *Archbishop of Wales*

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol  
Deiniol Sant ym Mangor  
2.30pm  
Dydd Sadwrn 30 Ebrill 2022  
The Cathedral & Metropolitan Church  
of Saint Deiniol in Bangor  
2.30pm  
Saturday 30 April 2022

## Oddi wrth Is-Ddeon Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor



Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd  
Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull  
o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a  
chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll – y  
“bangor” gwreiddiol – iddi'n gysgod ac yn  
noddfa.

Heddiw, o fwrdd yr allor i'n banc bwyd,  
rydym yn gweithio'n galed yma i rannu  
ffydd, gobaith a chariad er mwyn ein dinas  
a'n hesgobaeth, ac yn awr, fel eglwys  
archesgobol, er mwyn ein talaith gyfan.  
Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gynnal  
a chadw'r muriau, i harddu ein cysegrfeydd,  
i adlunio Corff yr Eglwys, i wasanaethu  
ein cymuned mewn ffyrdd newydd, ac i  
groesawu pererinion â lletygarwch ddyfnach  
– oll mewn pryd i ddathlu ein penblwydd yn  
fileniwm a hanner oed yn 2025.

I ddysgu mwy am ein bywyd ar y cyd yma  
yn y Gadeirlan, mynnwch gopi o **Buchedd  
Bangor**, cylchgrawn y Gadeirlan, neu  
gwelwch gopi digidol trwy'r côd QR.

Gweddïwn yma feunydd dros yr Eglwys  
yng Nghymru. O'ch trugaredd, gweddïwch  
hefyd drosom ni. A dewch nôl ar bererindod  
i Fangor – bydd croeso cynnes i chi bob  
amser yn y fangre hon o ffydd, gobaith a  
chariad i bawb.



## From the Sub-Dean of Saint Deiniol's Cathedral


On behalf of our Cathedral community, I wish you a very warm welcome.

As you join us here, you stand where Deiniol stood almost a millennium and a half ago. Here, in the year 525, our founder gathered around him a community of faith, hope and love, and raised around it a hazel fence – the original “*bangor*” – for shelter and sanctuary.

Today, from our altar-table to our foodbank, we work hard in this place to share faith, hope and love for our city and diocese, and now, as a metropolitan church, for the whole of our province. We have exciting plans for the coming years to conserve our fabric, to beautify our sanctuaries, to refit our Nave, to serve our community in new ways, and to welcome pilgrims with a deeper hospitality, all ahead of celebrating our millennium-and-a-half anniversary in 2025.

To learn more about our common life here at the Cathedral, please pick up a copy of **Buchedd Bangor**, our Cathedral magazine, or read a digital copy via the QR code.

We pray here daily for the Church in Wales. Of your mercy, pray also for us. And do not let this be your only pilgrimage to Bangor – there will always be a warm welcome for you in this place of faith, hope and love for all.



Canon Siôn B. E. Rhys Evans



Buchedd Bangor



## Oddi wrth Archesgob Cymru



Dyma gynnwll heddiw i weddio dros yr Eglwys yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

Rydym wedi ein dwyn ynghyd i nodi dechrau fy ngweinidogaeth newydd fel Archesgob. Ond yr wyf yn falch y bydd ein gwasanaeth yn cwmpasu y cyfan o'm cyd-escobion yn ein galwedigaeth gyffredin fel pererinion, pregethwyr a phen-fugeiliaid.

Y tu hwnt i hyn, wrth inni weddio yn rhan gyntaf ein gwasanaeth dros yr Esgobion fel **pererinion**, cawn gyfle i fyfyrion ar ein taith ninnau fel disgyblion. Nid yw bod yn ddisgybl yn nodwedd ym mywyd Cristnogol i'r sawl sy'n frwd – dyma'r bywyd Cristnogol i bob un ohonom.

Wrth i ni weddio yn ail ran ein gwasanaeth dros yr Esgobion fel **pregethwyr**, cawn gyfle i fyfyrion ar ein galwad ninnau i gyfranogi yn y dasg o efengylu. Mae efengylu yn golygu bod yn dyst i gariad achubol Iesu Grist yn y fath fodd fel ei fod yn gwahodd ymateb.

Ac wrth i ni weddio tua diwedd ein gwasanaeth dros yr Esgobion fel **pen-fugeiliaid**, cawn gyfle i fyfyrion ar y weinidogaeth yr ydym ni oll yn ei rhannu, ledled yr Eglwys ar yr adeg dyngedfennol hon – sef troi gobeithion dewr yn weithredoedd diriaethol, gan ddarganfod o'r newydd, wrth wneud hynny, beth yw calon yr Eglwys yng Nghymru.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y geiriau o anogaeth a'r sicrwydd gweddïau i mi eu derbyn y misoedd diwethaf hyn. Parhewch i weddio dros fi a'm cyd-escobion dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf – dros ein ffocws ar feithrin disgyblion ac ar efengylu, a dros y cyfrifoldebau arweinyddol sydd ar ein hysgwyddau. Ac ymunwch â mi yn fy ngweddi feunyddiol dros holl ffyddloniaid eglwysi a chapeli Cymru, wrth i ni geisio bendithio, gweithredu a byw dros Grist ym mhob cwr o'n cenedl.



## From the Archbishop of Wales

We gather today to pray for the whole of the Church in Wales.

We have been brought together to mark the beginning of my new ministry as Archbishop. But I am glad that our service encompasses all of my episcopal colleagues in our shared calling as pilgrims, preachers and pastors.

More than this, as we pray in the first part of our service for the Bishops as **pilgrims**, we are given an opportunity to reflect on our own discipleship. Discipleship is not a trait in Christian life for the enthusiast – it **is** the Christian life for all of us.

As we pray in the second part of our service for the Bishops as **preachers**, we are given an opportunity to reflect on our own call to share in the task of evangelism. Evangelism means bearing witness to the saving love of Jesus Christ in such a way that it invites a response.

And as we pray near the end of the service for the Bishops as **pastors**, we are given an opportunity to reflect on the ministry in which we all share across the Church at this crucial time – that of turning brave hopes into concrete acts, and, in so doing, discovering afresh what it means to be the Church in Wales.

I have been very grateful for the words of encouragement and the assurance of prayer that I have received over recent months. Please continue to pray for me and my fellow bishops over the weeks and months ahead – for our focus on discipleship and evangelism, and for the responsibilities of leadership that we bear. And join me in my daily prayer for all the faithful people of Wales's churches and chapels, as we seek to bless, act and live for Christ across our nation.

A handwritten signature in black ink, reading "Andrew T. G. John". The signature is written in a cursive style with a cross at the beginning.

Y Parchediacaf | The Most Revd Andrew T. G. John



## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnwid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun mewn **teip trwm**. Yn ôl ein harfer mewn gwasanaethau dwyieithog, darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✝. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) mewn **teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r Stiwardiaid.

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych bryder, cysylltwch ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Pobl ifanc

Mae pobl ifanc o dair o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Rydym yn ddiolchgar i'r Penaethiaid, y Caplaniaid a'r teuluoedd sydd wedi galluogi eu cyfranogiad heddiw.

## Cerddoriaeth newydd

Ar ddechrau'r gwasanaeth, bydd anthem gan Paul Mealor, a gomisiynwyd ar gyfer y gwasanaeth hwn, yn cael ei chanu gan Gôr Cadeirlan Deiniol Sant. Mae'r Gadeirlan yn ddiolchgar i Gorff Cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru am ei gefnogaeth ariannol i'r comisiwn.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur Munken, sy'n bapur ardystiedig Cradle to Cradle Certified®, o felin bapur Munkedals yn Sweden, un o'r melinau papur mwyaf cynaliadwy yn y byd.

Caiff y gwasanaeth hwn ei ffyrddio'n fyw, a chaiff y recordiad ei osod arlein maes o law. Mae ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gennym, cysylltwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Clawr a lluniau

Mae'r clawr, a gomisiynwyd gan Gadeirlan Deiniol Sant, gan Hana Amner. Mae'r lluniau yn nhrefn y gwasanaeth gan Neil Mark Thomas (Ynys Môn), Nick Fewings (Caerdydd) ac Alasdair James (Wrecsam).

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874.

Mae'r llithoedd yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

Mae ffurfdeipiau Scilla, Sawton a Wotfard gan Ffowndri Atipo.



## Worshipping with us today

This booklet contains everything said and sung during our worship today. You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains. However, worship is not primarily something that we read or observe – it is an activity, in which we all participate, alongside those who are gathered with us and, we believe, alongside the whole company of heaven. Be sure, therefore, to look up; to notice colour, light, sound, movement and beauty; to raise up your voice; to take your full part; to be formed and transformed.

During our worship, we say and sing together the text in **bold type**. According to our custom for bilingual services, translations into English are provided from Welsh and other languages. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered in **red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

## Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the Stewards.

## Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, raise them immediately with a member of the Cathedral team.

## Young people

Young people from three Church in Wales schools are taking part in the service. We are grateful to the Headteachers, Chaplains and families that have enabled their participation today.

## New music

At the start of the service, an anthem by Paul Mealor, commissioned for this service, will be sung by the Choir of Saint Deiniol's Cathedral. The Cathedral is grateful to the Representative Body of the Church in Wales for its financial support for the commission.

## Sustainability and permissions

We use Munken paper, which is Cradle to Cradle Certified®, from the Munkedals paper mill in Sweden, one of the most sustainable paper mills in the world.

The service is being live-streamed and the recording will be made available thereafter online. An official photographer is on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by us, please speak to a member of the Cathedral team.

## Cover and photographs

The cover, commissioned by Saint Deiniol's Cathedral, is by Hana Amner. The photographs in the order of service are by Neil Mark Thomas (Anglesey), Nick Fewings (Cardiff) and Alasdair James (Wrexham).

## Acknowledgements


Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874.

The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

The Scilla, Sawton and Wotfard typefaces are by Atipo Foundry.

# Trefn y gwasanaeth

## The order of service




**Yng Nghapel Mair am 2pm, cyflwynir y Datganiad Cadeirio Synodaidd i Esgob Llanelwy gan Gofrestrydd yr Archesgob, a thyngir y datganiad difrifol arferol gan yr Archesgob fel a ganlyn**

In the Lady Chapel at 2pm, the Synodical Declaration of Accession is presented to the Bishop of St Asaph by the Archbishop's Registrar, and the Archbishop makes the customary solemn declaration as follows

Yn Enw Duw. Amen. Yr wyf fi, Andrew, Archesgob Cymru, trwy Ragluniaeth Ddwyfol, yn ddifrifol ddatgan y byddaf yn ufuddhau i gyfansoddiad, canonau, cyfreithiau ac arferion cymeradwy yr Eglwys yng Nghymru yn weddus, ac y byddaf hyd eithaf fy ngwybodaeth, fy ngallu a'm nerth yn cynnal ac yn amddiffyn hawliau a rhyddfrefiniau ei Chorff Llywodraethol.

In the Name of God. Amen. I, Andrew, by Divine Providence Archbishop of Wales, do solemnly declare that I will observe the constitution, canons, laws and duly approved customs of the Church in Wales, and to the utmost of my knowledge, ability and power, will maintain and defend the rights and liberties of its Governing Body.





**Parhawn ar ein heistedd tra y tywysir cynrychiolwyr dinesig a brenhinol i'w seddau**  
We remain seated as civic and royal representatives are led to their seats

**Tywysir cynrychiolydd y Gwasnaethau Brys a chynrychiolydd Cyngor Gwynedd i'w seddau gan Glerc y Cabidwl**

The representative of the Emergency Services and the representative of Gwynedd Council are led to their seats by the Chapter Clerk

**Tywysir Uwch Siryf Gwynedd i'w sedd gan Archddiacon Meirionnydd**

The High Sheriff of Gwynedd is led to her seat by the Archdeacon of Meirionnydd

**Tywysir cynrychiolydd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru i'w sedd gan y Canon Primus**

The representative of His Royal Highness The Prince of Wales is led to his seat by the Canon Primus

**Tywysir Is Arglwydd-Raglaw Ei Mawrhydi yng Ngwynedd i'w sedd gan yr Is-Ddeon**

Her Majesty's Vice Lord-Lieutenant of Gwynedd is led to her seat by the Sub-Dean


**Wedi'r hysbysiadau, parhawn ar ein heistedd wrth i glerigion Esgobaeth Bangor, Canoniaid Taleithiol Cymru, cynrychiolwyr eciwmenaidd, Cofrestryddion Esgobaethol a Changhellorion Esgobaethol Cymru, Archddiaconiaid Cymru, Deoniaid Cymru, esgobion ar ymweliad, aelodau Coleg Offeiriadol y Gadeirlan, Cofrestryddion yr Archesgobion, Cofrestrydd a Changhellor Esgobaeth Bangor, a Chabidwl y Gadeirlan yn cymryd eu seddau yn Seintwar a'r Cwîr**

After the notices, we remain seated as the clergy of the Diocese of Bangor, the Metropolitan Canons of Wales, ecumenical representatives, the Diocesan Registrars and Diocesan Chancellors of Wales, the Archdeacons of Wales, the Deans of Wales, visiting bishops, the College of Priests of the Cathedral, the Archbishop's Registrars, the Registrar and Chancellor of the Diocese of Bangor, and the Cathedral Chapter take their seats in the Presbytery and the Quire

**Cerddoriaeth | Music**  
**Rhagarweiniad Corâl ar Alaw gan Melchior Vulpius**  
**Chorale Prelude on a Melody by Melchior Vulpius,**  
Healey Willan (1880-1968)



# *Pererinion Pilgrims*



Gweddïwn dros yr Archesgob ac Esgobion yr Eglwys yng Nghymru fel cyd-bererinion, disgyblion fel ninnau yn dilyn ffordd Iesu Grist We pray for the Archbishop and the Bishops of the Church in Wales as pilgrims, disciples with us, following the way of Jesus Christ



**Eglwys Cwyfan Sant ar Ynys Môn**  
Saint Cwyfan's Church on Anglesey

**Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch, a throi i wynebu Drws Gorllewinol y Gadeirlan**  
We stand as the bell is rung, and turn to face the West Door of the Cathedral

**Mae Archesgob ac Esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn cynnull ger y Fedyddfaen**  
The Archbishop and the Bishops of the Church in Wales gather by the Baptismal Font

**Parhawn ar ein traed**  
We remain standing

## **Siars i'r Pererinion** Charge to the Pilgrims

**Mae Lucy LeCras a Lily Mostert o Ysgol Santes Dwynwen yr Eglwys yng Nghymru ar Ynys Môn yn cyfarch y gynulleidfa, ac yna'r Archesgob a'r Esgobion**  
Lucy LeCras and Lily Mostert from the Church in Wales's Ysgol Santes Dwynwen on Anglesey address the congregation, and then the Archbishop and Bishops

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

Haleliwia! Atgyfododd Crist.

**Atgyfododd yn wir. Haleliwia!**

**A**rchesgob ac Esgobion yr Eglwys yng Nghymru,  
cyfarchwn chi fel cyd-bererinion,  
sy'n cerdded hefo ni ar hyd ffyrdd Ffydd, Gobaith a Chariad.  
Peidiwch ag anghofio bod pob dim yn dechrau fan hyn,  
yn ein galwedigaeth ni ar y cyd, a glywsom yn ein Bedydd,  
i ddilyn Crist mewn Ffydd,  
i gael ein cynnal ar hyd y daith gan Obaith,  
ac i rannu yn ein bywydau Gariad Crist at bawb.

Gweddiwn.

**D**uw Sanctaidd,  
ein Gwawr, ein Gwanwyn a'n Machlud:  
Cerdda gydag Andrew, Gregory, Joanna, June, Cherry,  
John a Mary,  
pererinion gyda ni ar hyd dy lwybrau di.  
Gad i ni a hwythau gofleidio cyflawnder bywyd yn Iesu Grist,  
ein Gwaredwr Atgyfodedig.

**Amen.**

### **Translation**

✠ *In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. Amen. / Alleluia! Christ is risen. He is risen indeed. Alleluia! / Archbishop and Bishops of the Church in Wales, we greet you as pilgrims, walking with us the ways of Faith, Hope and Love.*



*Do not forget that everything starts here, in our shared calling, heard at our Baptism, to follow Christ in Faith, to be sustained along the way by Hope, and to show forth in our lives Christ's Love for all. / Let us pray. Holy God, our Source, our Measure and our Destiny: Walk with Andrew, Gregory, Joanna, June, Cherry, John and Mary, pilgrims with us along your ways. Let us and them know the fulness of life in Jesus Christ, our Risen Saviour. Amen.*

**Parhawn ar ein traed**

We remain standing

**Anthem**

**Mae'r Côr yn canu**

The Choir sings

God builds a home; the apostles and prophets for a foundation; you, brick by brick; Christ Jesus as the cornerstone; taking shape, day by day; a holy temple in the Spirit, a dwelling place, of us, for God. "Toi'r eglwys fawr. Tir glas fu."

**Translation**

*"Roofing the great church. Here [in the Nave] was grass."*

**Geiriau | Words**

Effesiaid | Ephesians 2; o | from "Moliant i Ddeiniol" ("Praise to Deiniol"), Dafydd Trefor (ob. c.1528)

**Cerddoriaeth | Music**

Paul Mealor

**Comisiynwyd gan Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor ar gyfer y gwasanaeth Cadeirio hwn; dyma'i berfformiad cyntaf**

Commissioned by Saint Deiniol's Cathedral in Bangor for this Enthronement service; this is the composition's first performance

**Parhawn ar ein traed**

We remain standing

## Darlleniad o'r Testament Newydd Reading from the New Testament

### Parhawn ar ein traed

We remain standing

### Mae Richard John yn darllen

Richard John reads

**D**eary beloved: I beg you to lead a life worthy of the calling to which you have been called, with all humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love, making every effort to maintain the unity of the Spirit in the bond of peace. There is one body and one Spirit, just as you were called to the one hope of your calling, one Lord, one faith, one baptism, one God and Father of all, who is above all and through all and in all. But each of us was given grace according to the measure of Christ's gift. The gifts he gave were that some would be apostles, some prophets, some evangelists, some pastors and teachers, to equip the saints for the work of ministry, for building up the body of Christ, until all of us come to the unity of the faith and of the knowledge of the Son of God, to maturity, to the measure of the full stature of Christ. We must no longer be children, tossed to and fro and blown about by every wind of doctrine, by people's trickery, by their craftiness in deceitful scheming. But speaking the truth in love, we must grow up in every way into him who is the head, into Christ, from whom the whole body, joined and knitted together by every ligament with which it is equipped, as each part is working properly, promotes the body's growth in building itself up in love.

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

**Effesiaid | Ephesians 4:1-7, 11-16**

### Parhawn ar ein traed

We remain standing



## Gweddi Gasgl Collect

### Mae'r Archesgob yn gweddïo

The Archbishop prays

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gweddiwn.

**S**anctaid Dduw: Gwrando'n gweddi. Bendithia ein pererindod hyd lwybrau Ffydd, Gobaith a Chariad. Galw bob un ohonom o'r newydd y diwrnod hwn i'th ddilyn di. Tywys ni feunydd yn nes at Iesu Grist, ein Gwaredwr Atgyfodedig.

**Amen.**

### Translation

*Grace and peace be with you. And keep you in the love of Christ / Let us pray. Holy God: Hear our prayer. Bless our pilgrimage of Faith, Hope and Love. Call each of us anew this day to follow you. Draw us ever nearer to Jesus Christ, our Risen Saviour. Amen.*

### Parhawn ar ein traed

We remain standing

### Mae'r Côr, Esgobion yr Eglwys yng Nghymru a'r Archesgob yn gorymdeithio i du blaen Corff yr Eglwys

The Choir, the Bishops of the Church in Wales and the Archbishop process to the front of the Nave

## Emyn Hymn





**G**uide me, O thou great Redeemer,  
pilgrim through this barren land;  
I am weak, but thou art mighty,  
hold me with thy powerful hand:

Bread of heaven, Bread of heaven,  
feed me till I want no more;  
feed me till I want no more.

Colofn dân rho'r nos i'm harwain,  
a rho golofn niwl y dydd;  
dal fi pan fwy'n teithio'r manau  
geirwon yn y ffordd y sydd;  
rho im fanna, rho im fanna  
fel na bwyf yn llwfwrhau,  
fel na bwyf yn llwfwrhau.

Agor y ffynhonnau melys  
sydd yn tarddu o'r graig i maes;  
'r hyd yr anial mawr canlyned  
afon iachawdwriaeth gras;  
rho im hynny, rho i'm hynny:  
dim i mi ond dy fwynhau,  
dim i mi ond dy fwynhau.

When I tread the verge of Jordan,  
bid my anxious fears subside;  
death of death, and hell's destruction  
land me safe on Canaan's side:  
songs of praises, songs of praises  
I will ever give to thee,  
I will ever give to thee.

**Translation**

*Open now the crystal fountain / whence the healing  
stream doth flow; / let the fire and cloudy pillar /  
lead me all my journey through: / strong Deliverer, /  
be thou still my strength and shield.*

**Geiriau | Words**

William Williams, Pantycelyn (1717-1791)

**Cyfieithiad | Translation**


Peter Williams (1722-1796)

**Cerddoriaeth | Music | "Cwm Rhondda"**

John Hughes (1873-1932)



# *Pregethwyr Preachers*



Gweddïwn dros yr Archesgob ac Esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn eu galwedigaeth fel pregethwyr ac efengylwyr, yn cyhoeddi Newydd Da Iesu Grist We pray for the Archbishop and the Bishops of the Church in Wales in their vocation as preachers and evangelists, proclaiming the Good News of Jesus Christ



## Cerdd Poem

**Mae Susy Ralph yn darllen**

Susy Ralph reads

### Christ Jardinier

I.

Brusquement son visage dans celui du jardinier  
brusquement sa main tenant un chapelet d'ail et de seigle  
sa parole un peu durcie, paysanne.

Le corps n'est plus désert. Le temps se mesure  
en boue et plumes. Le Christ maintenant fidèle à sa vie  
regrette une lumière indécise d'enfance.

A tombeau ouvert  
le ciel approche  
le dérobe aux regards de la femme.

Elle égrène à présent sur l'ail et le seigle  
un silence de Magnificat.

II.

Elle serre un souvenir  
à rendre le souffle.

Au fond de ses lombes et de ses poumons  
le mort silencieux a élu présence.

Au miroir  
elle efface son corps dans le crepuscule  
elle s'étonne en voyant son propre visage.

Parmi les choses de longtemps s'enracine en elle  
la tendresse d'un Dieu bouturé.

Marie-Claire Banquart (1932-2019)

**Cyfieithiadau dros y dudalen**

Translations over the page



## Crist y Garddwr

I.

Ar amrantiad, gwedd y garddwr sydd iddo,  
ar amrantiad, llaswyr garlleg a rhyg sy'n ei law,  
a garwach ei lafar bellach, iaith y pridd.

Nid anialwch mo'r corff bellach. Treigla amser  
mewn plu a llaid. Crist yn cyflawni ei oes  
mewn hiraeth am oleuni gwachul mebyd.

Sleifia'r nefoedd  
drwy fedd agored  
i'w niwlo i ffwrdd o wylidwriaeth y wraig.

Ac yn awr ar y rhyg a'r garlleg cyflwynna  
i laswyr tawel ei Magnificat.

II.

Cofleida atgof yn chwynn  
ymron hyd fygu.

Yn ei llwynau a'i chalon  
plannodd angau mud ei faner.

Wrth y drych  
dilea ei chorff yn y gwyll  
yn gwelwi wrth ei gwedd ei hun.

Yng ngardd yr hen dyfiant  
mae toriadau tyner  
o newydd-deb Duwdod  
ynddi'n gwreiddio.

**Cyfieithiad Cymraeg | Welsh-language translation**  
Siôn Aled

## Christ in the Garden

I.

Abruptly his face is the gardener's face  
abruptly a rosary of garlic and rye in his hand  
his language now rougher, his peasant-talk.

The body's no longer a desert. Time is measured  
in mud and feathers. Christ now keeping faith with his life  
misses the uncertain light of childhood.

Open-tombed  
heavens approach  
spirit him away from the watching woman.

And now on the rye and the garlic she tells  
a beaded silence a Magnificat.

II.

She hugs tight a memory  
enough to squeeze out breath.

Deep in her loins and in her heart  
silent death has planted its flag.

At the mirror  
she cancels her body in the half-light  
astonished at the sight of her own face.

Among long-established things  
the tenderness of cuttings  
taken from a God  
spreads roots in her.

**Cyfieithiad Saesneg | English-language translation**

Martin Sorrell



## Anthem

### Mae'r Côr yn canu

The Choir sings

When Mary thro' the garden went,  
there was no sound of any bird,  
and yet, because the night was spent,  
the little grasses lightly stirred,  
the flowers awoke, the lilies heard.

When Mary thro' the garden went,  
the dew lay still on flower and grass,  
the waving palms above her sent  
their fragrance out as she did pass.  
No light upon their branches was.

When Mary thro' the garden went,  
her eyes, for weeping long, were dim.  
The grass beneath her footsteps bent,  
the solemn lilies, white and slim,  
these also stood and wept for him.

When Mary thro' the garden went,  
she sought within the garden ground,  
one for whom her heart was rent,  
one who for her sake was bound,  
one who sought, and she was found.

#### **Geiriau | Words**

Mary Elizabeth Coleridge (1861-1907)

#### **Cerddoriaeth | Music**

Charles Villiers Stanford (1852-1924)

## Efengyl Gospel

### Codwn ar ein traed, a chanu wedi'r Côr

We stand, and sing after the Choir



Ŷ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. **R̄ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Ŷ Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw? Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi. **R̄ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

#### Translation

*Alleluia. Why do you look for the living among the dead? He is not here, but has risen.*

### Mae Esgob Llanelwy yn cyhoeddi'r Efengyl

The Bishop of St Asaph proclaims the Gospel

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Ioan.

**Gogoniant i ti, O Grist.**

**B**ryd hynny: Yr oedd Mair yn sefyll y tu allan i'r bedd, yn wylo. Wrth iddi wylo felly, plygodd i edrych i mewn i'r bedd, a gwelodd ddau angel mewn dillad gwyn yn eistedd lle'r oedd corff Iesu wedi bod yn gorwedd, un wrth y pen a'r llall wrth y traed. Ac meddai'r rhain wrthi, "Wraig, pam yr wyt ti'n wylo?" Atebodd hwy, "Y maent wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd, ac ni wn i lle y maent wedi ei roi i orwedd." Wedi iddi ddweud hyn, troes yn ei hôl, a gwelodd Iesu'n sefyll yno, ond heb sylweddoli mai Iesu ydoedd. "Wraig," meddai Iesu wrthi, "pam yr wyt ti'n wylo? Pwy yr wyt yn ei geisio?" Gan feddwl mai'r garddwr ydoedd, dywedodd hithau wrtho, "Os mai ti, syr, a'i cymerodd ef, dywed wrthyf lle y rhoddaist ef i orwedd, ac fe'i cymeraf fi ef i'm gofal." Meddai Iesu wrthi, "Mair." Troes hithau, ac meddai wrtho yn iaith yr Iddewon, "Rabbwni" (hynny yw, Athro). Meddai Iesu wrthi, "Paid â glynu wrthyf, oherwydd nid wyf eto wedi esgyn at y Tad. Ond dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, 'Yr wyf yn esgyn at fy Nhad i a'ch Tad chwi, fy Nuw i a'ch Duw chwi.'" Ac aeth Mair Magdalen i gyhoeddi'r newydd i'r disgyblion. "Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd," meddai, ac eglurodd ei fod wedi dweud y geiriau hyn wrthi. Gyda'r nos ar y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, yr oedd y drysau wedi eu cloi lle'r oedd y disgyblion, oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon. A dyma Iesu'n dod ac yn sefyll yn eu canol, ac yn dweud wrthynt, "Tangnefedd i chwi!" Wedi dweud

